

# Cabazitaxel ar gyfer canser metastatig hormon-atglafychol y prostad wedi'i drin gyda docetaxel

Mai 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir cabazitaxel (Jevtana), gyda prednisone neu prednisolone, fel opsiwn triniaeth posibl ar gyfer pobl sydd â [chanser metastatig hormon-atglafychol y prostad](#):

- os cafodd ei drin â docetaxel
- os oes ganddynt [statws perfformiad Eastern Cooperative Oncology Group](#) o 0 neu 1.

Dylid rhoi'r gorau i cabazitaxel os bydd y clefyd yn gwaethygu neu ar ôl 10 cylch o driniaeth (pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf).

## *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Os oes gennych ganser metastatig hormon-atglafychol y prostad, a bod eich meddyg o'r farn mai cabazitaxel yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai cabazitaxel fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

## Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Argymhellwyd cabazitaxel oherwydd bod y buddiannau i gleifion yn cyfiawnhau ei gost.

## Y cyflwr a'r triniaethau

Pan fydd canser y prostad wedi lledaenu i ran arall o'r corff, fe'i gelwir yn ganser metastatig y prostad. Yn y mwyafrif o ddynion sydd â chanser y prostad, gall yr hormon testosteron wneud i'r canser dyfu ynghynt. Felly gellir trin canser y prostad â chyffuriau sy'n gwneud i'r corff gynhyrchu llai o destosteron, neu i adweithio iddo mewn ffordd wahanol. Gelwir hyn yn driniaeth atal androgenau.

Ar ôl cyfnod, gallai'r canser beidio ag ymateb i driniaethau o'r fath - gelwir hyn yn ganser 'hormon-atglafychol'.

Mae statws perfformiad yr Eastern Cooperative Oncology Group (ECOG) yn fesuriad o ba mor dda ydych chi. Mae statws 0 ECOG yn golygu eich bod yn egnïol iawn, mwy neu lai fel yr oeddech cyn eich salwch. Mae statws 1 yn golygu na allwch wneud gwaith corfforol trwm, ond gallwch wneud unrhyw beth arall.

Mae cabazitaxel a docetaxel yn gyffuriau gwrthganser, a ddefnyddir i ladd celloedd canser. Rhoddir cabazitaxel drwy drwythiad i mewn i wythien. Fe'i rhoddir gyda chyffur arall o'r enw prednisone neu prednisolone a gymerir ar ffurf tabled.

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## Ffynonellau cyngor a chymorth

- [Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU](#), 0808 800 4040
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 0000
- [Prostate Cancer UK](#), 0800 074 8383
- [Tackle Prostate Cancer](#), 0845 601 0766

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1922-2